| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Dyddiad :** | **29 Mehefin 2015** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth ac Arweinaid** |

## 1. Cefndir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau. Seilir yr adroddiad ar y wybodaeth a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon a defnyddir ei gyfeirnodau.. Diweddarir y Pwyllgor hefyd ar sefyllfa ynglyn a chyfarwyddyd y Pwyllgor ynglyn a hyfforddiant Cyng Chritopher O' Neal ar 14fed o Orffennaf 2014.

## 2. Cwynion

### 2.1 Achos 6141/201400682

Dyddiad derbyn: 29/04/14

**<u>Cwyn</u>**

Cwyn bod cynghorydd tref wedi cam ddefnyddio ei safle er mwyn cael mantais ariannol ac wedi cymryd rhan mewn trafodaeth ar fater lle 'roedd ganddo fuddiant oedd yn rhagfarnu.

**<u>Penderfyniad</u>**

Ombwdsmon am ymchwilio.

### 2.2 Achos 5847/201404989 & 5847/201404990

Dyddiad derbyn: 21/10/14

**<u>Cwyn</u>**

Cwyn fod aelod cyngor tref wedi ymddwyn mewn modd oedd yn dwyn anfri ar y cyngor.

**<u>Penderfyniad</u>**

Ombwdsmon yn ymchwilio.

**2.3 Achos 201403463**

Dyddiad derbyn: 18/07/14

**Cwyn**

Cwyn bod aelod o gyngor tref wedi cymryd rhan mewn cyfarfod lle roedd ganddi fuddiant oedd yn rhagfarnu.

**Penderfyniad**

Dim camau pellach i'w cymryd. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn fod tystiolaeth i awgrymu torri'r cod ond na fyddai'r Pwyllgor Safonau, yn yr amgylchiadau, yn rhoi unrhyw gosb bellach.

**2.4 Achos 201402810**

Dyddiad derbyn: 28/07/14

**Cwyn**

Wedi anfon e-bost at fudiad lleol ar ran y cyngor cymuned ond heb ei gymeradwyaeth.

**Penderfyniad**

Pwyllgor Safonau yn dyfarnu ei fod wedi torri'r cod ac yn penderfynu y dylai dderbyn cerydd.

**3. Cyng. Christopher O' Neal**

Bydd y Pwyllgor yn cofio yn sgil ei benderfyniad i atal y Cyng. yng Ngorffennaf 2014 i gyfarwyddyd gael ei roi y dylai fynychu sesiwn Hyfforddiant gyda Swyddog Monitro'r Awdurdod ar "Y Cod Ymddygiad a holl brotocolau'r Cyngor sy'n berthnasol i ymddygiad y Cynghorydd."

Yn dilyn cwblhau ei gyfnod atal aethpwyd ati i geisio trefnu sesiwn Hyfforddiant gyda'r Cynghorydd. Hyd yn hyn nid yw wedi bod yn bosib cynnal yr hyfforddiant. Er i dri dyddiad ac amser penodol ym Mawrth, Ebrill a Mai eleni gael eu cytuno'n benodol gyda'r cynghorydd ar gyfer cynnal y sesiynau nid yw wedi mynychu'r un. Byddaf yn rhoi arweiniad pellach ar lafar i'r Pwyllgor ar y mater. Rwyf wedi hysbysu'r aelod fy mod yn bwriadu adrodd i'r Pwyllgor.

## 4. Coflyfr yr Ombwdsmon

Mae'r Ombwdsmon yn cyhoeddi Coflyfr y Cod Ymddygiad, sy'n adrodd ar gwynion o dorri'r cod ymddygiad y mae wedi ymchwilio iddynt.  Atodir copi o'r rhifyn diweddaraf fel Atodiad i'r adroddiad hwn.  Mae holl rifynnau'r Coflyfr i'w gweld ar wefan yr Ombwdsmon (www.ombudsman-wales.org.uk)

## 4.  Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.